

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Meddygfa Llansamlet

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Llansamlet fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Uwch-bartner o blith y Meddygon Teulu a Rheolwr y Practis ar 10 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom holi'r practis am y ffordd mae'n gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nodwyd bod y practis wedi bod ar gau i'r cyhoedd ers dechrau pandemig COVID-19. Trefnwyd i'r cleifion gael ymgynghoriadau dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Lle y bo'n briodol, defnyddiwyd lluniau ar gyfer rhai cyflyrau meddygol, fel problemau'r croen. Roedd pob galwad yn cael ei brysennu gan feddyg teulu. Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn cael eu gwahodd i'r practis ac yn cael apwyntiad ymlaen llaw. Gwisgai'r staff a oedd yn derbyn y cleifion ar y safle gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol. Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion ymhellach wrth iddynt gyrraedd y practis, dywedodd yr Uwch-bartner wrthym eu bod yn bwriadu gosod teclyn i agor y drws ffrynt. Byddai hyn yn galluogi staff y dderbynfa i adael y cleifion i mewn heb fod angen iddynt eu cyfarch wrth y drws ffrynt.

Er mwyn lleihau'r mynd a dod, dywedwyd wrthym eu bod yn defnyddio ffenestr agored wrth ochr yr adeilad er mwyn i bresgripsiynau gael eu trosglwyddo i'r cleifion yn ddiogel. At hynny, roedd y practis yn trefnu i bresgripsiynau gael eu hanfon yn uniongyrchol i fferyllfeydd y cleifion. Caiff tystysgrifau salwch meddygol eu hanfon at y cleifion drwy e-bost neu drwy'r post.

Mae'r practis yn ymwybodol y gall y llinell ffôn fod yn brysur tu hwnt yn ystod cyfnodau brig. Nodwyd, er mwyn lleihau'r pwysau ar y brif linell ffôn, fod y practis wedi annog cleifion i ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein¹ er mwyn trefnu apwyntiadau a/neu archebu amlbresgripsiynau. Hefyd, mae'r practis wedi ailgyflwyno llinell ffôn benodol i archebu amlbresgripsiynau. Dywedwyd wrthym, wrth i fwy o'r cleifion ddefnyddio'r system ar-lein ac e-bostio'r practis, y caiff y llinell ffôn ar gyfer presgripsiynau ei dirwyn i ben, maes o law.

Nodwyd hefyd fod y practis wedi treialu system 'Ask My GP'² fel ffordd o leddfu'r pwysau ar y prif linellau ffôn. Fodd bynnag, nid oedd y system yn addas ar gyfer system frysennu sefydledig y practis, a rhoddwyd y gorau i'w defnyddio. Cawsom wybod bod y practis bellach yn ystyried system 'Engage Consult'³ sy'n fwy addas ar gyfer ei systemau presennol.

¹ Prosiect cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella gofal cleifion yw Fy Iechyd Ar-lein. Mae'n galluogi cleifion i gyflawni rhai tasgau iechyd yn ddiogel ar y we

² System ar-lein ar gyfer ymgynghoriadau a llif gwaith yw *askmyGP* sy'n helpu meddygon teulu i reoli llwyth achosion cleifion drwy newid gweithredol a brysennu digidol. Fe'i gwneir yn haws i gleifion siarad â'u meddyg eu hunain ac mae'n helpu meddygon teulu i flaenoriaethu a darparu gofal drwy negeseuon, galwadau fideo a thros y ffôn.

³ Mae Engage Consult yn galluogi cleifion i gyfathrebu â'r practis yn ddiogel ar-lein os bydd ganddynt gyflyrau meddygol nad ydynt yn rhai brys, neu gwestiynau gweinyddol. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth hunan-gymorth am symptomau

Roedd rheolwr y practis wedi cwblhau amrywiaeth o archwiliadau asesu risg amgylcheddol. Nodwyd hefyd fod Adran Ystadau'r bwrdd iechyd wedi ymweld â'r practis ac wedi cynnal asesiad risg penodol ar gyfer COVID-19 o'r safle cyfan, gan roi mesurau rheoli ar waith.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael asesiad risg COVID-19 y GIG, a gwnaed addasiadau i arferion gwaith os oedd angen.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n preswyllo mewn un cartref gofal ac mae ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Dywedodd yr Uwch-bartner fod y meddygon teulu yn dilyn gweithdrefnau'r cartref gofal wrth fynd i mewn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedodd yr Uwch-bartner wrthym fod ymweliadau â chartrefi wedi parhau drwy gydol y pandemig. Disgrifiodd yr Uwch-bartner y broses y mae'r clinigwyr yn ei dilyn wrth eu cynnal. Caiff pob achos ei asesu'n unigol a chadarnhawyd bod digon o gyfarpar PPE ar gael. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Uwch-bartner nad oes unrhyw weithdrefn ysgrifenedig nac asesiad risg ar waith.

Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer ymweld â chartrefi yn cael ei datblygu, ynghyd ag asesiadau risg ffurfiol.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiâu rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom holi'r lleoliad am y ffordd y mae'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom hefyd adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Nodwyd bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf amdano drwy e-bost.

Gwelsom dystiolaeth bod rhestr wirio archwiliad rheoli heintiau wedi'i chwblhau'n ddiweddar gan reolwr y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis y caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i fonitro bellach.

penodol bob awr o'r dydd, a gellir cael gafael ar wasanaethau hunan-ofal a gwasanaethau lleol y GIG eraill drwyddi. Nod Engage Consult yw ei gwneud hi'n haws i gleifion gael gafael ar wasanaethau, gwneud practisau yn fwy effeithlon, a lleihau'r baich o ran amser ac adnoddau timau clinigol a gweinyddol.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant rheoli heintiau. Ar 10 Tachwedd 2020, roedd yn dangos cyfradd gwblhau o 82% ar gyfer lefel 1 a 94% ar gyfer lefel 2. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod trefniadau ar waith i neilltuo amser penodol i'r staff gwblhau hyfforddiant.

Nodwyd hefyd fod uwch-nyrs y practis wedi rhoi hyfforddiant i'r staff ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Roedd gan y practis ddigon o PPE a oedd yn cael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd. Yn ogystal â PPE sylfaenol, roedd y practis hefyd yn prynu eitemau ychwanegol, fel ffedogau a sbectolau amddiffynnol.

Nodwyd, pan oedd y pandemig ar ei anterth, fod y tîm yn cael briffiadau dyddiol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Roedd gan y practis ystafell arbennig i ynysu cleifion lle y bo angen. Gwelsom fod gan y practis brotocol manwl ar gyfer ynysu cleifion yn ddiogel. Yn yr ystafell ynysu, cedwir yr holl gyfarpar a PPE sydd eu hangen. Gall cleifion fynd i mewn i'r ystafell ynysu yn uniongyrchol o'r tu allan, ac fe'u cedwir ar wahân i brif ardal y cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth bod amserlenni glanhau yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd yr Uwch-bartner a rheolwr y practis eu bod yn fodlon ar safonau glendid y practis. Fodd bynnag, cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd unrhyw wiriadau ar hap ffurfiol yn cael eu cynnal.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cynnal archwiliadau rheolaidd o brosesau glanhau a bod cofnodion yn cael eu cynnal.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gwestiynau'r lleoliad am y ffordd mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig, a chadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd unrhyw swyddi gwag.

Nodwyd bod cyfarfodydd clwstwr rheolaidd wedi cael eu cynnal ers mis Mawrth 2020. Cawsai'r cyfarfodydd hyn eu cynnal yn rhithwir. Cawsom wybod bod gwasanaeth asesu wedi

cael ei sefydlu yn ystod y don gyntaf rhwng tri phractis yn y grŵp clwstwr. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli ar sail rota gan bartneriaid pob practis, gydag atgyfeiriadau electronig yn cael eu hanfon at y gwasanaeth asesu.

Cadarnhaodd yr Uwch-bartner nad oedd y practis wedi wynebu unrhyw broblemau yn cael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau na gofal eilaidd. Dywedodd yr Uwch-bartner, drwy ddefnyddio ap Consultant Connect⁴, ei bod hi wedi bod yn haws cael gafael ar rai gwasanaethau, fel rhai lechyd Meddwl.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cyfarfodydd tîm ffurfiol wedi cael eu gohirio drwy gydol y pandemig. Roedd y staff wedi cael y canllawiau diweddaraf drwy friffiadau dyddiol, a roddwyd ar waith gan reolwr y practis ar ddechrau'r pandemig. Cawsai unrhyw newidiadau a diweddariadau pellach i bolisiâu a gweithdrefnau eu hanfon at y staff drwy e-bost.

Dylai rheolwr y practis sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn ailddechrau yn y practis drwy eu cynnal yn rhithwir.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi adolygu a diweddarau rhai polisiâu allweddol yn sgil pandemig COVID-19. Roedd wedi diweddarau ei gynllun parhad busnes, ei bolisi rheoli pandemig a'i bolisi atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd cofnod yn cael ei wneud o fersiynau gwahanol y polisiâu ac nid oedd dyddiad adolygu yn cael ei nodi ychwaith.

Dylai rheolwr y practis sicrhau bod hyn yn digwydd ar gyfer pob polisi a gweithdrefn. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisiâu a'r gweithdrefnau.

⁴ Mae ap **Consultant Connect** yn ei gwneud hi'n syml i glinigwyr gyfathrebu. P'un a oes angen cyngor ac arweiniad arnoch oddi wrth **feddyg ymgynghorol** lleol neu gael gafael ar bractis yn hawdd, mae'r ap yn eich cysylltu mewn ffordd hawdd a chyflym.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Meddygfa Llansamlet

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer ymweld â chartrefi yn cael ei datblygu, ynghyd ag asesiadau risg ffurfiol.	Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Datblygir protocol ymweld â chartrefi fel prosiect gwella ansawdd, a chaiff asesiad risg COVID-19 ei gynnwys fel rhan o hyn	Dr Matt Stevens	Disgwylir ei gyhoeddi ar 1/12/20 ond mae diwygiadau yn debygol felly fe'i cyflwynir erbyn 31/1/21
2	Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cynnal archwiliadau rheolaidd o brosesau glanhau a bod cofnodion	Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Yn sgil trafodaeth â'r Contractwr Glanhau; nodwyd y caiff yr archwiliad cyntaf ei gynnal ar 10	Branwen Bratton	Cynhelir yr archwiliad cychwynnol

	yn cael eu cynnal.		Rhagfyr 2020. Hefyd, cadarnhaodd y Contractwyr fod system lanhau sydd wedi'i chodio ar sail lliwiau ar waith gan wahanu mopiau/sychwyr llwch ystafelloedd clinigol, toiledau a gweddill yr adeilad fesul lliw		erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 ac fe'i cynhelir bob mis wedyn
3	Dylai'r practis sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn ailddechrau yn y practis drwy ystyried eu cynnal yn rhithwir.	Llywodraethu	Rheolwr y Practis i siarad â'r Cydlynnydd TG a'r Practis am ailgyflwyno cyfarfodydd Tîm y Practis - naill ai gyda chynrychiolwyr o bob tîm a chadw pellter cymdeithasol (yn dibynnu ar y niferoedd) neu drwy ddefnyddio Microsoft Teams	Branwen Bratton	Amserlen ar gyfer cyfarfodydd tîm yn y dyfodol i fod yn barod erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020
4	Dylai rheolwr y practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu a bod cofnod yn cael ei gadw o'r fersiynau gwahanol. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau.	Llywodraethu	Rheolwr y practis i fynd drwy'r holl bolisiau a gweithdrefnau i gynnwys dyddiad adolygu ynddynt; hefyd bod y staff perthnasol yn llofnodi'r polisi â llaw [neu'n darparu datganiad ysgrifenedig drwy e-bost i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisi]		Caiff hyn ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: BRANWEN BRATTON

Dyddiad: 27-11-2020